Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cylchlythyr technegol

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Rhifyn 18 Mawrth 2009

Cynnwys

Hyfforddiant diweddaru i Gynllunwyr Rheoli
Arolwg cwsmeriaid Coetiroedd Gwell i Gymru
Ffioedd cydgrynhoi GIS
Grantiau diwygiedig i Gynllunwyr Rheoli
Cyfrifydd costau newydd
Grantiau Gwella Coetiroedd
Lansio Strategaeth Goetir Cymru
Nodiadau atgoffa
Newidiadau staff

Y rhifynnau nesaf:

Rhifyn 19 Mai 2009
Rhifyn 20 Gorffennaf 2009

Mae'r rhifyn cyfredol a rhifynnau blaenorol ar gael ar wefan CCC:
www.forestry.gov.uk/wales

Hyfforddiant diweddaru i Gynllunwyr Rheoli

Mae'r hyfforddiant diweddaru bellach wedi ei gwblhau ac mae'r cwestiynau a'r atebion, ynghyd â chopïau o'r cyflwyniadau wedi eu hanfon at bob cynlluniwr. Gallwch e-bostio alison.evans@forestry.gsi.gov.uk os ydych chi'n dymuno'i ail-anfon. Diolch i bawb am fynychu ac am ddarparu adborth. Rydym wedi bod yn dadansoddi hyn a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod.

Dywedodd 88% o'r rhai a fynychodd fod yr hyfforddiant yn foddhaol neu well
Dywedodd 4% o'r rhai a fynychodd nad oedd yr hyfforddiant yn gwbl foddhaol
Ni roddodd 8% o'r rhai a fynychodd sgôr i'r hyfforddiant.

Yr adrannau a sgoriodd uchaf oedd y cyflwyniad, gwybodaeth yr hyfforddwr, yr help a roddodd yr hyfforddiant o ran Coetiroedd Gwell i Gymru a'r sesiynau trafod.

Yr adran a sgoriodd isaf oedd dogfennaeth a byddwn yn ymdrechu i wella hyn, nid yn unig o ran hyfforddiant, ond hefyd er mwyn sicrhau bod Andrew Wright, ein Rheolwr Dogfennaeth, yn cymryd hyn i ystyriaeth. (Gweler yr erthygl ar yr arolwg cwsmeriaid).

Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd roedd:

- *'Byddai cael mwy o uwch swyddogion y Comisiwn Coedwigaeth yn bresennol wedi bod yn fuddiol'. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod y Rheolwr Gweithrediadau neu'r Rheolwr Gweithrediadau Cynorthwyol yn mynychu pob sesiwn.*
- *'Y paratoadau a'r cyflwyniad yn gyffredinol dda'*
- *"Gormod am nodweddion a ffactorau'. Paratowyd yr hyfforddiant diweddaru hwn fel ymateb i adborth Cynllunwyr y byddai rhagor o wybodaeth am nodweddion a ffactorau'n ddefnyddiol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod lefelau profiad Cynllunwyr yn amrywio. Mae bob amser yn anodd cynllunio sesiwn hyfforddi sy'n ymdrin ag ystod eang o bynciau ac sydd wedi'i hanelu at gynulleidfa â sgiliau gwahanol.*
- *Defnyddiol iawn ar gyfer 'hoelio sylw'' yn gyffredinol.*

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Arolwg cwsmeriaid Coetiroedd Gwell I Gymru ar ei ffordd i chi

Bydd ein rheolwr dogfennaeth, Andrew Wright, yn anfon arolwg cwsmeriaid at ein holl Gynllunwyr Rheoli. Y nod pennaf yw dangos lle mae dogfennau sy'n ymwneud â phroses Coetiroedd Gwell i Gymru ar goll, neu lle mae angen diwygio dogfennau sy'n bodoli eisoes. Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i ddarganfod rhagor am y ffordd rydych chi'n defnyddio Coetiroedd Gwell i Gymru a'r gwasanaeth rydym ni'n ei gynnig. Caiff yr holiadur ei e-bostio at bob Cynlluniwr Rheoli, ond hoffem i chi ystyried y cwestiynau o'ch safbwynt chi eich hunan ac o safbwynt eich cleientiaid. Dyma'ch cyfle i fynegi'ch barn, felly cofiwch ymateb. Caiff crynodeb o'r casgliadau ei gyhoeddi mewn cylchlythyr technegol yn y dyfodol.

Newidiadau i'r Cynllun Taliad Sengl (SPS) ar gyfer plannu newydd

Mae newidiadau pwysig wedi eu gwneud i'r Cynllun Taliad Sengl fydd yn effeithio ar goetiroedd fferm. Erbyn hyn gall ffermwyr ddefnyddio tir a dynnwyd allan o gynhyrchu amaethyddol er mwyn plannu newydd dan Goetiroedd Gwell i Gymru, i gefnogi hawlio hawliau Taliad Sengl, cyhyd â bod y tir wedi ei ddefnyddio i hawlio Taliad Sengl yn 2008. Gellir defnyddio'r tir ar gyfer hawliadau Taliad Sengl drwy gydol cyfnod y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae hyn hefyd yn berthnasol i goetir lle cafodd anifeiliaid eu cau allan dan Dir Gofal.

Mae coedlan cylchdro byr bellach yn ddefnydd tir sy'n gymwys ar gyfer y taliad sengl, ac nid oes angen hawlio'r 'Cymorth Cnydau Ynni'.

Pwy yw'ch Swyddog Gwasanaethau Technegol?

O'r chwith i'r dde,

rhes flaen:
Menna Jones,
Carol Jones,
Liz Watt,

rhes gefn:
Rhian Corlett,
Sam Milner

Os ydych yn ansicr pa Swyddog sy'n delio â'ch achos, ewch i'r dudalen 'current case administration' yn GLOS. Yna dewiswch 'case summary' a bydd yn dangos enw'r TSO (Swyddog gweinyddol) sy'n gyfrifol am eich cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru.

Ffioedd cydgrynhoi GIS

Fel y nodwyd yn y Cylchlythyr Technegol diwethaf, byddwn yn parhau i dalu ffioedd cydgrynhoi GIS ar ôl 1 Ebrill ar gyfer y Cynllunwyr Rheoli hynny sy'n darparu data gofodol ar gyfer eu hachosion Coetiroedd Gwell i Gymru. Bydd y ffioedd yn parhau yn £750 ar gyfer y ddau achos cyntaf sy'n cyrraedd statws PRL2 a £250 ar gyfer unrhyw achos ychwanegol a gymeradwyir. Mae'r ddau daliad o £750 yn gydnabyddiaeth o'r buddsoddiad o ran arian ac amser ar gyfer prynu a dod yn gyfarwydd â meddalwedd GIS. Nid yw'r £250 ar gyfer pob achos ychwanegol yn mynd i dalu am ddigido data'r map ond yn hytrach i wneud yn iawn am y data ychwanegol sydd ei angen ar gyfer yr achos Coetiroedd Gwell i Gymru, h.y. gwybodaeth ychwanegol yn y tabl priodweddau. Pan fyddwch chi'n darparu data digidol, cyfrifoldeb y Cynllunwyr Rheoli yw gwneud yn siŵr fod data wedi eu cipio'n gywir cyn anfon at Wasanaethau Technegol.

O 1 Ebrill, bydd Gwasanaethau Technegol yn gwirio pob achos a gyflwynir yn ddigidol gan ddefnyddio meddalwedd pwrpasol a ddatblygwyd i sicrhau bod y gwaith yn unol â safonau cipio data. Bydd y meddalwedd yn gwirio cywirdeb y data a gipiwyd yn ôl MasterMap yr Arolwg Ordnans – yn enwedig ffin achos Coetiroedd Gwell i Gymru. Bydd hefyd yn gwirio ansawdd y cipio data, gan amlygu unrhyw ddolenni digidol ac yn gwirio nad oes polygonau'n gorgyffwrdd na bylchau rhwng isadrannau a data polygon eraill. Bydd y meddalwedd yn cynhyrchu adroddiad a gaiff ei basio'n ôl i'r Cynlluniwr Rheoli er mwyn hwyluso cywiro. Bydd defnyddio'r meddalwedd hwn yn cyflymu'r broses dilysu data.

Er mwyn helpu Cynllunwyr Rheoli sy'n defnyddio GIS ar gyfer Coetiroedd Gwell i Gymru, mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd dau arweiniad i ddefnyddwyr ar gael o 1 Ebrill. Ysgrifennwyd yr arweiniadau hyn gan Gynllunwyr Rheoli a byddant yn eich tywys trwy'r broses o gynhyrchu data digidol ar gyfer eich achos Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae'r ddau arweiniad ar gyfer Rheolwyr Cynllunio sy'n defnyddio naill ai ArcGIS ESRI neu MapInfo. Bydd trydydd arweiniad, ar gyfer Rheolwyr Cynllunio sy'n defnyddio Map Maker ar gael cyn bo hir.

I gael copi o un o'r arweiniadau hyn, e-bostiwch bww.ts@forestry.gov.uk gan nodi pa feddalwedd GIS rydych yn ei ddefnyddio.

Grantiau Cynllunio Rheoli newydd o 1 Ebrill 2009

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cyflwyno grantiau cynllunio rheoli diwygiedig o 1 Ebrill 2009. Bydd y cyfraddau newydd yn berthnasol i bob achos nad yw wedi cyrraedd Cam Contract Drafft erbyn hynny.

Pennwyd y ffioedd gwreiddiol yn dilyn cynllun peilot Coetiroedd Gwell i Gymru. Roedd y broses ddiwygio'n golygu asesiad yn ôl chwyddiant yn ogystal â thrafodaethau gyda chynllunwyr a amlinellodd eu profiadau gyda'r cynllun, er mwyn ystyried newidiadau yn y prosesau system a busnes a dybiwyd neu a fesurwyd gan y cynllun peilot.

Gellir crynhoi'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- Cafwyd bod cyfrifiad y grant cynllunio rheoli'n dal i weithio'n dda ac yn adlewyrchu'r prif grwpiau gwaith. Fodd bynnag, cafwyd elfennau gwaith newydd yng ngorbenion yr achos sylfaenol.
- Cafwyd bod y newidynnau dibynnol ar arwynebedd ar gyfer achosion mawr ychydig yn isel - oherwydd diffyg gallu porwr mapiau integredig soffistigedig.
- Dangosodd cymhariaeth o'r ymdrechion wrth friffio a mewnbynnu asesiadau arbennig fod angen swm ar gyfer prosesu yn hytrach na'r ffi friffio a ddefnyddid hyd yma.
- Ceir costau arolygu ac ymgynghori mewn grŵp bach ac adnabyddadwy o achosion cymhleth a daw'r rhain yn ddarostyngedig i fath asesiad arbennig â rheolau.
- Croesawodd y cynllunwyr y cyfraniad ychwanegol o arian Cynllun Sylfaen i'r llif arian yn ystod y cam cynllun rheoli

Newidiadau i grantiau cynlluniau rheoli
Bydd y dull a ddefnyddir i gyfrifo grantiau cynlluniau rheoli yn parhau'n ddigyfnewid. Dyma'r cyfraddau newydd:

Caiff y gyfradd ddyddiol sylfaenol i asiant ei phennu ar £360/dydd (£45/awr)

Y swm sylfaenol fydd £500 (cynnydd o £200)
Y swm polygon fydd £14 (cynnydd o £4)
Y gyfradd dan 35ha fydd £33 (cynnydd o £8)
Y gyfradd dros 35ha fydd £6.75 (cynnydd o £1.75)

Bydd y ffi Briffiadau Asesiadau Arbennig yn dod i ben ac yn cael ei disodli gan swm Prosesu Asesiadau Arbennig o £100 ar gyfer pob asesiad arbennig, waeth pwy fydd yn eu cynnal.

Yn ystod 09/10, ar gyfer achosion â chyfanswm arwynebedd o fwy na 10ha, bydd y swm pris cyson o £200 am gyflawni cynllun Sylfaen yn parhau i gael ei dalu ar ôl anfonebu amdano, os yw'r cynlluniwr yn cwblhau'r cynllun Sylfaen o fewn 60 niwrnod. Taliad dan gytundeb fframwaith y Cynlluniwr yw hwn.

Ar gyfer achosion â chyfanswm arwynebedd o lai na 10ha, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn datblygu ymagwedd symlach er mwyn lleihau'r amser rhwng cyflwyno a chymeradwyo cais ac felly ni chaiff ffi cyflawni'r cynllun Sylfaen ei thalu yn yr achosion hyn.

Bydd pob ffi gyfuno arall yn dod i ben ar wahân i'r ffi ychwanegol sy'n cael ei thalu i gymell cynllunwyr i ddarparu data gofodol o'u GIS eu hunain.

Cyfrifydd cost newydd ar gyfer Grantiau Gwella Coetiroedd

Caiff Cyfrifydd Cost newydd ar gyfer Grantiau Gwella Coetiroedd a'r rheolau busnes cysylltiedig eu cyhoeddi ddechrau Ebrill ar wefan Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae yna newidiadau sylweddol i'r cyfrifydd a'r rheolau busnes, ac felly unwaith y cânt eu cyhoeddi, cofiwch ddileu hen gyfrifyddion/rheolau busnes er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn newydd. Bydd y fersiwn newydd o Gyfrifydd Cost newydd Grantiau Gwella Coetiroedd ar gael ym mis Mawrth (mor gynnar â phosibl) a gellir ei ddefnyddio ar bob cynllun fydd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 09 ymlaen.

- Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dal i dderbyn costiadau grant sy'n seiliedig ar hen Gyfrifydd Costau Grantiau Gwella Coetiroedd tan 1 Mai 2009. Pwrpas hyn yw caniatáu ar gyfer achosion lle mae'r gweithrediadau eisoes wedi eu bwydo i mewn i GLOS.
- Rhaid i bob cynllun rheoli a gyflwynir i Swyddfa Cymru am y tro cyntaf ar ôl 1 Mai ddefnyddio'r Cyfrifydd newydd.

Lansio Strategaeth Goetir Cymru

Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 12 wythnos, caiff y Strategaeth Goetiroedd Cymru newydd ei lansio ar 27 Mawrth gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig. Roedd y ddogfen hon, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2001, yn nodi cynllun 50 mlynedd ar gyfer coed a choetiroedd. Ers hynny mae nifer o gyfleoedd a bygythiadau newydd, megis newid yn yr hinsawdd, wedi dod i'r amlwg ac mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth. Caiff rhagor o fanylion am y lansiad hwn eu cynnwys yn rhifyn 19 o'r cylchlythyr.

Nodiadau atgoffa

Diwygiadau
Ni chaiff sylw ein tîm Gwasanaethau Technegol ei dynnu at ddiwygiad gan asiant neu berchennog yn system GLOS oni fyddwch yn e-bostio bww.ts@forestry.gsi.gov.uk a rhoi gwybod iddyn nhw am y newid. Neu gallwch roi copi o'r ffurflen ddiwygio yn y post a'i hanfon at ein swyddfa yng Nghlawdd Newydd neu sganio'r ffurflen wedi'i chwblhau a'i chynnwys fel atodiad mewn e-bost. Ni chaiff eich diwygiad ei brosesu tan i chi gysylltu â'n tîm.

Isadrannau plannu newydd
Rhaid i Blannu Newydd gysylltu'n ofodol ag isadrannau yn unig. Os bydd plannu newydd yn cysylltu â pholygonau cyffredinol, bydd yr achos yn methu croeswirio ac yn golygu fod cymeradwyo'ch achos yn cael ei oedi.

Siapau GIS heb eu cysylltu
Mae yna nifer o achosion Coetiroedd Gwell i Gymru lle mae'r polygonau, pwyntiau a llinellau wedi eu creu, ond heb waith ynghlwm. Cofiwch roi gwybod i'r Swyddog Gwasanaethau Technegol os bydd angen dileu unrhyw siapau diangen cyn cyflwyno'r achos i'r Comisiwn Coedwigaeth.

Newidiadau staff

Wedi 5½ mlynedd gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, mae Swyddog Coetir De-ddwyrain Cymru, Andy J Wright, yn symud i borfeydd newydd o fis Ebrill 2009 i dderbyn swydd Ymgynghorydd Coedwigaeth gydag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol High Weald a South Downs. Caiff Swyddog Coetir newydd ei benodi i gymryd lle Andy mor fuan â phosibl.

Mae Liz Watt wedi ymuno â Thîm y Gogledd fel Swyddog Cefnogi Rheoleiddio, a bydd yn ymdrin â cheisiadau am Drwyddedau Cwympo, Asesiadau Effaith Amgylcheddol a Chynlluniau Dylunio Coedwig.

Manylion cysylltu...

Ymholiadau CGG cyffredinol: Ffoniwch 0845 604 0845 neu ewch i: www.forestry.gov.uk/cymru
Ymholiadau technegol: E-bostiwch bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
Gwasanaeth GLOS: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
ac amawgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bostiwch alison.evans@forestry.gsi.gov.uk